OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 636 (Cy.62)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Cymru) 2010 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 2009" ("*the 2009 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Cymru) 2009(**2**);

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**3**).

### Diwygio rheoliad 1 o'r Rheoliadau Optegol

**2.** Yn rheoliad 1(2) o'r Rheoliadau Optegol (enwi, cychwyn a dehongli), yn y diffiniad o "NHS sight test fee"—

(a) yn lle "£55.93" rhodder "£57.16"; a

(b) yn lle "£20.26" rhodder "£20.70".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2009/589 (Cy.56).
(**3**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

**Diwygio rheoliad 7 o Reoliadau 2009**

**3.** Yn nhestun Cymraeg rheoliad 7 o Reoliadau 2009, ar ôl "Yn rheoliad 13(2)(l)(ii)" rhodder "o Reoliadau 1986".

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

5 Mawrth 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n penderfynu lefel ffioedd profion golwg y GIG. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 1 o'r Rheoliadau Optegol er mwyn cyfeirio at gynnydd o 2.2% yn y ffioedd ar gyfer profion golwg GIG.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 7 o Reoliadau 2009.